Cyngor Cymuned Llanfihangel-ar-arth Community Council
6ed Gorffennaf 2026 / 6th July 2026
Festri Tabernacle Vestry, Pencader
Is-Bwyllgor Cyllid / Finance Sub-Committee
7.30 y.h. / p.m.

Presennol / Present: M. Griffiths, A. Davies, A. James, H. Lewis, R. Thomas, S. Davies (Clerc/Clerk)

Ymddiheuriadau / Apologies: J. Jones

1. Croeso a derbyn Ymddiheuriadau – Derbyniwyd ymddiheuriadau a nodwyd uchod.		**1. Welcome and accept any Apologies -** Apologies received and noted above.
2. Cofnodion Cyfarfod 16eg Ebrill 2026 – Derbyniwyd fel cofnodion cywir yng nghyfarfod llawn y Cyngor ar 20ed Ebrill 2026. Cynigiwyd: A. James; eiliwyd: R. Thomas.		**2. Minutes of Meeting held 16th April 2026** – Accepted as an accurate record at Full Council Meeting held on 20th April 2026. Proposed: A. James; seconded: R. Thomas.
3. Materion yn Codi – Trafodwyd mewn Cyfarfod Cyngor Llawn blaenorol fod angen adnewyddu Aelodaeth SLCC. Y ffi aelodaeth yw £5 a'r tanysgrifiad yw £84.00. Roedd penderfyniad wedi'i wneud i agor cyfrif Amazon gan ein bod ni nawr yn archebu nifer o eitemau ar gyfer y gwahanol sefydliadau y mae'r Cyngor Cymuned yn gyfrifol amdanynt. Y Clerc i drefnu hyn yn syth. Angen i'r Clerc gysylltu gyda Chyngor Sir Caerfyrddin i weld pryd mae'r taliadau ar gyfer y goleuadau stryd LED yn dod i ben.		**3. Matters Arising** – It had been discussed at a previous Full Council Meeting that the SLCC Membership needed to be renewed. The fee for membership is £5 and the subscription is £84.00. A decision had been taken to open an Amazon account as we were now ordering a number of items for the various establishments for which the Community Council was responsible. Clerk to organise this immediately. Clerk needs to contact Carmarthenshire County Council to find out when payments for the LED streetlights come to an end.
4. Derbyn a thrafod y Fantolen / Adroddiad Ariannol hyd at 30.06.2026 – Roedd H. Lewis wedi paratoi'r Datganiad Ariannol hyd at ddiwedd mis Mehefin 2026. Trafodwyd a derbyniwyd yr adroddiad. Cynigiwyd: A. Davies; eiliwyd: R. Thomas.		**4. Receive and discuss Financial Statement / Report up to 30.06.2026** – H. Lewis had prepared the Financial Statement up to the end of June 2026. The report was discussed and accepted. Proposed: A. Davies; seconded: R. Thomas
5. Cofrestr Asedau – Adroddwyd nad oes angen gwneud unrhyw newidiadau i'r gofrestr ond bod yn ymwybodol na ddylid newid gwerth pob ased.		**5. Asset Register** – It was reported that no changes need to be made to the register but to be mindful that the value of each asset must not be changed.
6. Ysiwrant - Nid oes unrhyw newidiadau i unrhyw un o'r polisïau Yswiriant.		**6. Insurance –** There are no changes to any of the Insurance policies.
7. Archwiliad 2025-2026 – diweddariad – Adroddwyd bod y gwaith o baratoi'r holl ddogfennaeth ar gyfer yr Archwiliad Llawn yn mynd yn ei flaen yn dda a bydd M. Griffiths, H. Lewis a'r Clerc yn gyfarfod yn ystod yr wythnosau nesaf i'w gwblhau.		**7. Audit 2025-2026 – Update –** It was reported that that work was progressing well and that M. Griffiths, H. Lewis and Clerk will meet during the next few weeks to complete the work.
8. Unrhyw Faterion Eraill - Gofynnodd A. Davies am osod synhwyrydd yn storfa'r Cyfleusterau Cyhoeddus ym Mhencader gan nad oedd unrhyw oleuadau yn y gaeaf nes bod y switsh yn cael ei droi ymlaen. Gofynnwyd i'r clerc gael tri dyfynbris gan drydanwyr lleol.		**8. Any Other Business –** It was requested by A. Davies that a sensor be placed in the storeroom of the Public Conveniences in Pencader as, during the winter there was no lighting until the switch was turned on. Clerk was asked to obtain three quotes from local electricians.
9. Dyddiad y Cyfarfod Nesaf – ar ddyddiad i'w gytuno cyn Cyfarfod Llawn y Cyngor ym Mis Hydref.		**9. Date of Next meeting –** on a date to be agreed prior to a meeting of the Full Council in October.

Gorffenwyd / Ended: 8.25y.h. / p.m.

_____